PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 43 Hydref 28, 2021 50c.

## NEGES Y LLYWYDD AR DROTHWY COP26

**Newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i ddynoliaeth erioed, a rhaid gweithredu'n gyflym ac yn gadarn os am ddiogelu dyfodol ein hil ar y blaned hon, rhybuddiodd y Parchg Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ar drothwy cynhadledd COP26 yn Glasgow.**




'Rhaid i COP26 fod yn fwy na siop siarad os ydym o ddifri am warchod dyfodol dynoliaeth,' meddai. 'Nid rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol yw newid hinsawdd – mae'n digwydd nawr, gyda llifogydd difrifol, tanau anferth, a lefelau'r môr yn codi. Os na lwyddir i gyfyngu'r codiad yn y tymheredd i 1.5˚C neu lai erbyn 2050, bydd y canlyniadau'n enbyd. Rhaid i'r gwleidyddion wrando ar y gwyddonwyr, ac ar y bobl ifanc sy'n poeni cymaint am eu dyfodol. Rhaid iddynt wrando – a gweithredu.'

### Bydd angen aberth

'Mae 2.5 biliwn o Gristnogion yn byw ledled y byd, ac fel rhai sy'n credu mai Duw sydd berchen ar y ddaear hon, mae cyfrifoldeb arbennig arnom ni i wneud yn siŵr bod arweinwyr y gwledydd yn clywed ein llais. Ond ar yr un pryd, bydd rhaid i ninnau newid ein ffyrdd o fyw, gan dderbyn hefyd y bydd galw arnom i wneud aberth ariannol i dalu am fesurau llymach caiff eu cyflwyno i dorri ar danwydd carbon.

'Rwy'n galw ar eglwysi'r Annibynwyr Cymraeg i droi at ynni glân ac adnewyddol i gynhesu eu hadeiladau, i blannu blodau a llwyni a choed wrth eu capeli lle bo'n addas, i ddewis teithio ar fysys a threnau cyhoeddus neu geir trydan a *hybrid*, i gefnogi mudiadau ac ymgyrchoedd sy'n gwarchod y ddaear, ac i ddatgan ein pryder am y bygythiad i'r blaned hardd hon i'n cynrychiolwyr gwleidyddol.

'Yn fwy nag erioed, rydym yn gymdogion fel cenhedloedd ledled y byd – yn wynebu'r un dynged ble bynnag yr ydym. Safwn gyda'n gilydd wrth garu'r ddaear, neu syrthiwn mewn hunanoldeb.'



*'Rhaid i COP26 fod yn fwy na siop siarad os ydym o ddifri am warchod dyfodol dynoliaeth.'*
Parchg Beti-Wyn James

## Y Parchg T. Gerwyn Jones

Tristwch mawr i bawb ohonom oedd clywed am farwolaeth Y Parchg T. Gerwyn Jones, Porthcawl. Bu ef yn weinidog yn Saron, Birchgrove a Bethel, Llansamlet; Yr Alltwen; Y Plough, Aberhonddu, Sardis, Cwmcamlais a Libanus; Bethel, Cynghordy; Capel y Groes, Cil-y-cwm; Seion, Myddfai; Bwlch-y-rhiw a Salem, Llanymddyfri.

Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth yn enwedig ei briod Cathy, Rhiannon, Enfys ac Eleri.

## Y Parchg Eifion Gilmour Jones

Tristwch mawr i bawb ohonom oedd clywed am farwolaeth Y Parchg Eifion G. Jones. Bu ef yn weinidog yn Seilo, Llwydiarth, Llandegfan; Gosen, Llanerfyl (P); Y Fron a'r Brwcws, Dinbych (P); Ebeneser Colwyn a Bethel Penmaenrhos.

Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth yn enwedig gyda'i blant Eilir, Miriam a Llŷr.

## Geir-iau

### Yr ifanc ar flaen y gad: COP 26



Mae newid hinsawdd yn bwnc trafod sy'n cael llawer o sylw yn ddiweddar. Rydym ni fel arweinwyr ifanc ar flaen y gad ac eisiau i wleidyddion weithredu. Mi fydd y gynhadledd COP26 yn Glasgow ddiwedd y mis hwn. Ond faint o effaith bydd hyn yn wir yn cael a beth rydym ni fel pobl ifanc eisiau gweld gan wleidyddion?

### Problem fwy na Covid

Mae angen i wleidyddion y byd wir gymryd newid hinsawdd fel problem fawr, problem sy'n fwy na Covid. Mae'r pandemig wedi'n deffro ni i effeithiau posib natur ar fywydau pobl. Mae wedi lladd miliynau o bobl ac wedi dangos bod angen dilyn yr wyddoniaeth gan ymateb yn gynnar. Mae angen cael yr un cyflymder gweithredu gyda newid hinsawdd gan ddilyn yr wyddoniaeth sy'n glir ac mae 99% o wyddonwyr y byd y gytûn. Mae ein byd yn cynhesu sy'n achosi problemau byd-eang i'n hinsawdd ac yn dinistrio'n planed, cynefinoedd byd natur a chymdeithasau cyfan. Mae gwyddonwyr yn amcangyfrif bod 5 miliwn o farwolaethau yn digwydd bob blwyddyn o ganlyniad i'r hinsawdd eithafol. Dim ond cynyddu bydd y niferoedd wrth i ni agosáu at gyrraedd y targed coch o godiad o 1.5 gradd Celsius yn nhymheredd y byd. (Gall hyn ddigwydd mewn llai na 10 mlynedd heb ymyraethau). Mi fydd y gynhadledd hon yn dyngedfennol gyda 197 gwlad yn dod i'r digwyddiad pwysicaf i amgylchyddwyr ers i'r gwledydd arwyddo Cytundeb Paris yn 2015, oedd yn cynnwys y targed coch yma. Mi fydd rhaid i'r gwledydd gyflwyno eu cynlluniau ar sut maent am leihau ei allyriadau a chyrraedd net sero.

### Gweithredoedd yn hytrach na geiriau gwag

Yn hytrach na geiriau gwag di-bwys mae angen i wleidyddion weithredu. Mae'r 'arweinwyr' wedi cael dros 30

*parhad ar dudalen 2*

# Geir-iau – parhad

mlynedd i weithredu ond nid oes llawer wedi digwydd hyd yn hyn. Mae dros hanner o'r holl allyriadau wedi cael eu rhyddhau i'r atmosffer ers 1990, a thraean ers 2005. Rydym yn carlamu i'r cyfeiriad anghywir, mae 2021 wedi cael ei chyfrifo fel y codiad allyriadau ail uchaf. Dim ond rhyw 2% o gyllidebau adferiad gwledydd sydd wedi cael eu rhoi tuag at brosiectau ynni glân. Ond mae'r arweinwyr yn dweud bod nhw'n gwneud llawer tra mae pobl ifanc yn gallu gweld drwy'r penawdau mawr. Does yna ddim ymrwymiad os yw gwledydd yn buddsoddi mewn agor pyllau glo newydd, ac mewn olew a nwy gan anwybyddu'r broblem yn llwyr. Mi fydd angen newid syfrdanol i'r ffordd ni'n byw, creu trydan a gwresogi ein cartrefi. Gall pawb wneud y pethau bychain, ond mae'r galw mwyaf am newid mewn llywodraethau yn hytrach na'r unigolion.

### Angen helpu gwledydd tlawd

Rhaid cael ymrwymiadau ariannol a buddsoddiad mewn swyddi gwyrdd gan newid o danwydd ffosil i egni gwyrdd yma adref ond hefyd mewn gwledydd llai ffodus. Mewn gwledydd tlawd bydd yr effeithiau fwyaf yn gyntaf, ond y nhw sydd wedi achosi'r lleiaf o allyriadau. Mae yna gyfrifoldeb moesol ar yr allyryddion mawr heddiw a rhai'r gorffennol i roi arian tuag at daclo'r broblem yn ogystal ag i liniaru'r risgiau. Fe wnaeth Vanessa Nakate o Uganda siarad yn y gynhadledd COP26 ieuenctid eleni gan sôn am ei phrofiad dirdynnol hi o weld pobl ei thref yn marw mewn llifogydd. Tynnodd sylw at y ffaith fod gwledydd diwydiannol y gorllewin wedi addo $100 biliwn y flwyddyn i'r gwledydd mwyaf bregus i effeithiau newid hinsawdd. Addawyd yr arian erbyn 2020 ond maen nhw'n dal i aros. Mae Vanessa'n dweud bod y broblem bellach yn rhy fawr i wledydd cyfandir Affrica ddelio ag ef, bellach mae angen bod yn rhagweithiol. Nid oes modd peidio ag addasu, neu'r canlyniad fydd colli diwylliannau, traddodiadau a hanes. Ond ni all pobl Uganda *addasu* i newyn nac i ddifodiant - *dioddef* byddan nhw yn sgil y pethau hyn. Mae hi'n cloi drwy ddweud bod y sefyllfa heddiw'n broblem i wledydd cyfoethog a thlawd fel ei gilydd a'i fod yn rhy hwyr i nifer, erbyn hyn. Mae'n bryd i'r allyryddion mawr dalu am eu gweithredoedd a chymryd cyfrifoldeb drwy weithredu'n bositif er mwyn helpu'r gwledydd sy'n dioddef ailadeiladu a lliniaru effeithiau newid hinsawdd.



### Rhoi cyfiawnder hinsawdd i'r dinasyddion

Felly rwyf wir yn gobeithio y bydd y gwleidyddion yn gwrando ar Vanessa a'r holl bobl ifanc eraill. Rwy'n gobeithio bydd uchelgeisiau yn cael eu hailwampio gyda pholisïau gwyrdd sy'n helpu i leihau ein hôl troed carbon a rhoi swyddi i bobl yn y gymuned.

Mae llygaid heddiw a'r dyfodol yn edrych yn fanwl ar beth mae'r genhedlaeth hŷn yn ei wneud. Heb weithredu, mi fydd y genhedlaeth nesaf, sef eich plant, eich wyrion ac eich gor-wyrion yn dioddef ac ni fydd maddeuant!

Mae cyfiawnder hinsawdd yn derm sy'n cael ei ddefnyddio gan actifyddion ifanc fel Greta Thunberg. Ystyr hyn yw, drwy wella ein planed mi fydd yn gwella'r gymdeithas a rhoi cyfiawnder i'w dinasyddion. Gallwn drawsnewid ein planed ac nid yw'n rhy hwyr os wnawn ni roi ymdrech ac egni heddiw i gydweithio fel byd i addasu er gwell ac arbed y blaned. Dyma'r cyfle olaf i newid pethau cyn ei fod yn rhy hwyr i greadigaeth Dduw.

**Cai Phillips**

*Mab fferm laeth yn ardal Blaen-y-coed, sir Gaerfyrddin yw Cai, ac mae'n aelod o eglwys Blaen-y-coed. Mae'n gyn-aelod o'r Senedd Ieuenctid Cymru dros orllewin Caerfyrddin a de Sir Benfro. Ar hyn o bryd mae'n astudio Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Aberystwyth.*

# Ar y dydd hwn: Hydref

*14 Hydref*
Bu farw Catherine Booth 1829–90, efengylydd, awdur, sylfaenydd Byddin yr Iachawdwriaeth ac hyrwyddwr hawliau merched. Roedd dros 30,000 o bobl ar strydoedd Llundain yn gwylio'r orymdaith angladdol. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Abney Park, Llundain.

Ganed Thomas Charles o'r Bala, 1755–1814, Ysgolhaig, athro ac esboniwr yn Longmoor, plwyf Llanfihangel Abercywyn, Caerfyrddin.

Ganed William Penn 1644–1718, Crynwr a sylfaenydd Pennsylvania yn yr Unol Daleithiau gerllaw Tŵr Llundain.

*15 Hydref*
Ganed John Saunders Lewis, 1893–1985, ysgolhaig, awdur, dramodydd a bardd, yn Bolton-cum-Seacombe ar lannau'r Merswy.

*16 Hydref*
Llosgwyd Hugh Latimer *c*.1485–1555, Esgob Caerwrangon a merthyr Protestannaidd yn Rhydychen oherwydd ei ddaliadau.

1790 bu farw Daniel Rowland, 1713–90, clerigwr Methodistaidd, pregethwr grymus, awdur ac emynydd, a chladdwyd ei weddillion yn Llangeitho ar 20 Hydref.

Bryd caf fi, anwylaf Iesu,
Gennyt le
Yn y ne',
Hyfryd gartre'r teulu.

Iesu agor i mi'n rasol
Ddrws y nen
Led y pen –
Gwna fi'n un â'th bobl!

Daniel Rowland

*18 Hydref*
Ganed Matthew Henry 1662–1714, *gweinidog Presbyteraidd ac esboniwr Beiblaidd* yn Broadoak, plwyf Malpas, Sir y Fflint.

*19 Hydref*
Bu farw Jacob Arminius, diwinydd.

*20 Hydref*
Ganed Daniel Owen, 1836–95, gweinidog (MC) a nofelydd, ym 53 Maes y Dref, yr Wyddgrug, sir y Fflint. Bu farw 22 Hydref 1895 yn 59 flwydd oed ac fe'i claddwyd ym mynwent gyhoeddus yr Wyddgrug.

'Nid i'r doeth a'r deallus yr ysgrifennais, ond i'r dyn cyffredin.'

Daniel Owen



*23 Hydref*
Bu farw John Evans, Eglwys-bach, 1840–97, gweinidog (W) a phregethwr.

*mwy ar dudalen 7*

Yr Adran
Gydenwadol

HYDREF 28 2021 RHIF 35

# Diwrnod Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd Dydd Sadwrn, 6 Tachwedd, Caerdydd a Bangor

Ymunwch â Chymorth Cristnogol, Tearfund a Cafod yn y Diwrnod Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd.

Yr argyfwng hinsawdd yw pwnc pwysicaf ein dydd. Mae mynd i'r afael ag ef yn fater o frys, a does dim amser i'w golli. Gall pob un ohonom wneud ein rhan; yn wir, RHAID i bob un ohonom wneud ein rhan. Ond rhaid i'n llywodraeth weithredu'n sylweddol hefyd. Mae angen inni sicrhau cyfiawnder i'r gwledydd tlawd sydd wedi gwneud cyn lleied i greu'r argyfwng sy'n eu hwynebu nawr.

**Beth sy'n digwydd?**
Ddydd Sadwrn, 6 Tachwedd, bydd cynulliadau mawr yn digwydd ar draws y byd i fynnu gweithredu ar newid hinsawdd wrth i arweinwyr y byd gyfarfod yn Glasgow ar gyfer cynhadledd hinsawdd COP26.

**Rali fawr dros gyfiawnder hinsawdd**
Cynhelir prif ralïau Cymru yng Nghaerdydd a Bangor. Ymunwch â ni ar gyfer y foment hollbwysig hon i alw am gyfiawnder hinsawdd ac i sefyll mewn undod â'n brodyr a'n chwiorydd sy'n wynebu effeithiau dwysaf yr argyfwng hinsawdd. Rydym yn bwriadu casglu gyda'n gilydd fel 'bloc ffydd', fel bod ein galwad taer fel Cristnogion ac eglwysi ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd yn weledol.

Ynghyd â Tearfund a CAFOD, bydd Cymorth Cristnogol yn cynnal cwrdd gweddi a pharatoi cyn y ddwy rali. Bydd cefnogwyr yn cyfarfod yn Eglwys Dewi Sant yng Nghaerdydd ac Eglwys Emaus, Bangor. Bydd hwn yn gyfle i Gristnogion ymgasglu, gweddïo a chasglu eu placardiau ar gyfer y rali.

**Mae'r Diwrnod o Weithredu yn gyfle i bob un ohonom hybu cyfiawnder, caru trugarhau a byw'n wylaidd wrth gerdded gyda Duw** (Micha 6:8). Gwnawn hynny mewn ffordd ymarferol iawn – gan gerdded gyda'n gilydd yn bwrpasol a gweddigar dros ein cymdogion byd-eang a chreadigaeth Duw.


**Gweddi a gweithredu – rhannwch y gair!**
Dros yr wythnos nesaf, a wnewch chi rannu'r gwahoddiad hwn â'ch cyd aelodau ac ymuno â ni fel grŵp?

- #GweddiaDrosCOP26 – Ceir adnoddau gweddi a gweithredu yma: https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/climate-justice-every-moment-matters




- Ceir gwybodaeth am y Diwrnod Byd-eang yma: https://www.christianaid.org.uk/get-involved-campaigns/climate-change/cop26-mobilisation
- Rhannwch wybodaeth am y Diwrnod Byd-eang yng Nghaerdydd dros Facebook: https://fb.me/e/1PsRxOoYj
- Dyma ddolen i ddeiseb Tearfund sy'n esbonio'r hyn fyddan nhw ac eraill yn galw amdano gan arweinyddion y byd: GWNEUD SAFIAD – Ni yw Tearfund

Os gwelwch yn dda, gadewch inni wybod os ydych yn dod. Am fwy o wybodaeth am y ralïau ym Mangor a Chaerdydd ac i anfon nodyn i ddweud y byddwch yn bresennol, cysylltwch â swyddfa Cymorth Cristnogol, os gwelwch yn dda: drwy ffonio 029 2084 4646 neu e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org.




CAFOD Catholic Agency for Overseas Development · tearfund · cymorth cristnogol

# Degfed Sul Adferiad Cymru BBC Radio Cymru

Bydd dydd Sul, 31 Hydref 2021, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd y Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysi nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis Adferiad, y Stafell Fyw, Inroads a chyflenwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle i weithredu'n ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra bydd eraill yn cymryd sylw newydd o'r anogaeth sydd yn Hebreaid 13:3: "Daliwch ati i gofio'r rheiny sy'n y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!" Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebreaid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw

Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar ddameg y Mab Afradlon – dameg sy'n ein hatgoffa o dri cham sydd, o'u cymryd, yn ein rhyddhau i dderbyn cyfle newydd, a thrwy hynny fywyd newydd: cydnabod, codi, a chyfrannu.

'Pa beth bynnag a ddug ein hunan-barch, ein bywyd oddi arnom, beth bynnag yw mwgwd ein parchusrwydd, neu ein dibyniaeth, pan ddisgyn y rheini a'n bywyd yn noeth a'r diddymdra yn cau amdanom, teimlwn ei Gariad yn ein croesawu, ein cynhesu, a'n hadfer.'

'Yn eno'r Tad, roeddwn i'n ficer! Trist dweud – roeddwn i'n ficer oedd wedi treulio 18 mlynedd yn credu bod Duw am i mi weithio 70 neu 80 awr yr wythnos. Gam wrth gam, o ddydd i ddydd, fe wnes i ddychwelyd at gragen fy mywyd oedd wedi ei chwalu'n llwyr, ac yna yn araf ei gweld yn cael ei rhoi yn ôl at ei gilydd fel porslen brau.'

Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarlledu ar BBC Radio Cymru fore Sul, 31 Hydref, a bydd croeso i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn eich eglwysi. Bydd ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan: www.cynnal.wales yn fuan.

Yn ogystal, rydym wedi comisiynu emyn newydd, 'Gweddi Adferiad', yn arbennig ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r geiriau gan Siôn Aled, a'r dôn gan Sioned Webb.

Dyma ddegfed Sul Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynnol, gan ofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw.

Diolch rhagblaen am bob cydweithrediad a chefnogaeth,

*Wynford Ellis Owen*
Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol
CYNNAL – y gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd,
96–98 Neville Street, Glan-yr-afon,
Caerdydd CF11 6LS
E-bost: wynfordellisowen@adferiad.org.uk
Ffôn: 07796464045 neu 029 2040 7407

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 31 Hydref, am 8.00yh**
Mewn rhaglen arbennig, bydd Huw Edwards yn datgelu canlyniad 'Emyn i Gymru 2021' mewn digwyddiad o Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Tybed pa emynau fydd wedi cyrraedd y deg uchaf?
Mae copi o gylchlythyr mis Hydref i'w gael o ddilyn y ddolen hon: https://spark.adobe.com/page/enhrXJs3QFjsa/

BBC radio cymru

**Sul, 31 Hydref – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp**
Elen Ifan yn cyflwyno detholiad o emynau o Gwm Tawe

**Sul, 31 Hydref – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp**
Sul Adferiad – gwasanaeth dan ofal Wynford Ellis Owen a chyfeillion

# *Cymanfa fer heb do!*

Cafwyd pnawn i'w gofio yn Soar, Nercwys, ar Sul olaf Medi wrth inni gynnal Cymanfa Fer i'r Fro yn y maes parcio. Fe fydd yn arferiad i gapeli'r ardal – o Landegla i Nercwys a Llanarmon – o bob enwad ymuno mewn cymanfa ar yr adeg hon.



Lis Jones yn cyfeilio, a Ceinwen Parry a Marion Simkin yn arwain



Y gynulleidfa o eglwysi'r fro

Roedd aelodau Soar yn dyheu am gael canu fel cynulleidfa gref eto, ond er bod y capel wedi cael to newydd yn ystod cyfnod y pandemig, nid oedd modd cael cynulleidfa o'r fro i ganu gyda'i gilydd yno nac i fentro 'codi'r to' dan yr amgylchiadau presenol. Ond fe wnaed y gymanfa'n bosibl eleni wrth i'r aelodau feddwl am y posibiliadau o ddefnyddio'u maes parcio i gynnal digwyddiad dwyieithog i'r ardal y tu allan, yn yr awyr agored.

Roedd hi'n dda cael canu mawl efo'n gilydd a rhoi diolch i Dduw am ein cynnal hyd yma. Diolch i bawb fu'n paratoi, yn hel offer, gosod cadeiriau, cymryd rhan, cyfeilio, hysbysebu, clirio, ac yn bennaf oll – yn canu! Gwnaed casgliad o £150 at Apêl Trychineb Haiti, Cymorth Cristnogol. Cafwyd tywydd braf a sych, heb ddim glaw tan ar ôl i bawb fynd adref!

*HP-D*

# Y Blaned, COP26 a Siopau Gwarchod Hinsawdd



Tynnwyd y llun ar ôl cau'r siop yn Aberystwyth brynhawn Sadwrn, 18 Medi, sef prynhawn agoriadol y siop. Dyma'r criw fu'n gweithio yn y siop y prynhawn hwnnw a chodi digon o arian i ariannu plannu 11,880 o goed yn Cenia, fel mae'r arwydd yn nodi. Mae Rhys Bebb Jones yn y blaen a Ru Hartwell yn y cefn â'i freichiau wedi eu plethu.

Cynhelir 26ain Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) yn Glasgow, yr Alban, rhwng 31 Hydref a 12 Tachwedd 2021. Yno bydd y gwleidyddion yn trafod y camau y bwriedir eu cymryd ganddynt i warchod yr hinsawdd a diogelu'r blaned a roddwyd i'n gofal.

### Ar y blaen

Mae trefi Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth ar y blaen i COP26! Os ydych yn byw yn y trefi hynny, neu wedi teithio'n ddiweddar drwy'r trefi hynny, efallai y byddwch wedi sylwi ar y siopau newydd a gwahanol sydd wedi eu hagor yno. Dyma'r Siopau Gwarchod Hinsawdd agorwyd gan Ru Hartwell yn Llanbed ym mis Ebrill ac yn Aberystwyth ym Medi. Maent yn gwireddu'r syniad o agor siopau sy'n cyfrannu at warchod yr hinsawdd, fel yr eglura Ru Hartwell, 'Mae syniad y prosiect yn eithaf syml. Rydyn ni'n derbyn y trugareddau nad yw pobl am eu cadw, a'u gwerthu i ariannu'r gwaith o blannu coed yn Cenia. Wrth i'r coed dyfu, maent yn amsugno carbon o'r awyr ac mae hynny'n cynorthwyo i gadw'r blaned rhag gor-gynhesu.'

### Cymorth

'Gwireddwyd agor y siop gyntaf gyda chymorth Clwb Rotari Llanbed. Mae'r ymateb a'r gefnogaeth gan y gymuned yn Llanbed ac Aberystwyth yn rhagorol. Rwy'n falch iawn o'n llwyddiant wrth i ni werthu eitemau'n ail-law a lleihau nifer yr eitemau sy'n mynd i'n safleoedd tirlenwi. Mae hynny'n codi arian i ni fedru rhoi bywoliaeth a help llaw i ffermwyr yn Affrica i blannu coed. Canlyniad hynny yw cael mwy o goed trofannol yn amsugno'r carbon sydd yn yr awyr i ostwng tymheredd y blaned.'

### Pris neu werth

Maent yn siopau gwahanol i'r siopau elusen arferol oherwydd nid yw'r nwyddau a werthir wedi eu prisio mewn punnoedd a cheiniogau. Mae'r nwyddau'n cael eu prisio yn ôl nifer y coed a gaiff eu plannu. Mae'n costio 20c i blannu coeden; felly, os nodir pris o 10 coeden i brynu padell ffrio, bydd yn costio £2.

### Llwyddiant

Mae'r siop yn Llanbed wedi codi digon o arian ers mis Ebrill i dalu am blannu dros 125,000 o goed yn Cenia. Agorwyd y siop fwy ei maint yn Aberystwyth ar 18 Medi, ac fe godwyd digon o arian y Sadwrn hwnnw i blannu dros 11,000 o goed. Maent yn ddiolchgar am y rhoddion caredig a dderbynnir gan drigolion sy'n byw yng ngorllewin Cymru sy'n bryderus am yr amgylchedd a'r ffaith fod y blaned yn gor-gynhesu.

### Maint Cymru

Rheolir y Siopau Gwarchod Hinsawdd gan Treeflights Cyf (Rhif Cwmni 6462199), sy'n gwmni 100% dielw. Fe'u hariennir yn rhannol o dan Gynllun Grant Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru. Y nod yw y bydd y siopau a'r elusen hinsawdd genedlaethol Maint Cymru (https://sizeofwales.org.uk/cy/) yn cynorthwyo gyda phlannu miliwn o goed y flwyddyn yn Cenia.

Cewch mwy o fanylion am y prosiect wrth gyfeirio at y dolenni canlynol:
Gwefan: www.climateshop.org
Facebook: https://www.facebook.com/groups/climateshop
Gwybodaeth am gefndir y prosiect yn Cenia: www.carbonlink.org

*Rhys Bebb Jones*
*Llanbedr Pont Steffan*

## Gweddïau dros Gynhadledd COP26 a gynhelir yn Glasgow

**Arweinydd:**
Ein Creawdwr cariadlawn, ar y foment hon yn hanes ein daear, gyda'r ddynoliaeth gyfan yn gorfod ystyried dyfodol ein planed, dyro i'r sawl a fydd yn ymgynnull yn Glasgow y teimlad o daerni, dirnadaeth o reidrwydd, ynghyd â doethineb a'r ewyllys i sicrhau iechyd a lles ein byd beth bynnag fydd y gost i gyfoeth, statws gwleidyddol neu fraint.

**Pawb:**
A dyro i bawb y weledigaeth
o fyd wedi ei adfer i iechyd llawn, ac
sy'n deilwng o bawb sydd eto i'w geni,
a fydd yn werth yr holl ymdrech,
hunanaberth ag ymrwymiad a offrymwn
ger dy fron yn awr.
Amen

**Y Datganiad** *(pawb i sefyll)*

**Arweinydd:**
Credwn mai byd Duw yw hwn a phopeth ag sydd arno ac ynddo.

**Pawb:**
Credwn fod bywyd diolchgar
a haelionus yn arwyddion o'n ffydd.

**Arweinydd:**
Credwn fod gan y ddynoliaeth gyfan hawl gyfartal i holl adnoddau'r ddaear.

**Pawb:**
fod rheidrwydd ar bawb yn awr i weithredu i ddiogelu dyfodol ein byd fel na fydd plant yr yfory yn gorfod byw dan faich ein camsyniadau ni.

**Arweinydd:**
Felly cyflwynwn ein hunain



**Pawb:**
i feddwl am ein planed,
i fasnachu'n deg,
i fyw yn gyfrifol,
gan garu ein byd fel y mae Duw yn ei garu, yr Hwn, yng Nghrist Iesu, a ddaeth yn un â'r greadigaeth.
Amen

(gweddi allan o *Living Faithfully in the Time of Creation* gan Kathy Galloway a Katherine M. Preston, Cymuned Iona. 2021)


*Troswyd i'r Gymraeg gan y Parchg Tom Evans, Peniel*

# Colofn Natur a Gwyddoniaeth

## Ymatebion

Yn y golofn hon yn rhifyn 15 Gorffennaf, 2021 mae Edward Morus Jones yn cyflwyno rhai o'i feddyliau ac atgofion am fathemateg, gan nodi'r ddwy wedd fras, y bur a'r gymhwysol. Â ymlaen i gynnig bod tebygrwydd gyda chrefydd ein traddodiad ni a chynnig ein bod wedi gorbwysleisio'r wedd bur ar draul y gymhwysol. Ar ddiwedd yr ysgrif gosodir her: trafodwn. Felly dyma fi'n ceisio, gan ddiolch mai gwahoddiad – trafodwn – sy yma ac nid gorchymyn, trafodwch.

Yn yr ysgrif ceir enghreifftiau o dopigau pur a chymhwysol difyr a diddorol yn rhychwantu bron y cyfan o fywyd daearol a thu hwnt. Ond rhaid i mi anghytuno gyda sylw Nan, ffrind Edward, '... Mae mathemateg bur yn ddi-werth oni bai ei bod yn cael ei chymhwyso a'i defnyddio i bwrpas bywyd'. Y disgrifiad 'yn ddi-werth' sy'n fy mlino. Ai di-werth yw myfyrdod disgybledig ar ryw destun a nodi datblygiad, cysondeb a phrydferthwch patrymau oddifewn i'r



testun dan sylw? Mae'r gair Saesneg 'elegant' yn ddisgrifiad cyffredin. A oes rhaid i bopeth fod yn gymhwysol? A fyddai EMJ a Nan yn dweud yr un peth am farddoniaeth, ei bod yn ddi-werth o'i chymharu gydag iaith gymhwysol megis ysgrifennu llythyr canmol neu lunio adroddiad ar draffig mewn pentref?

### Mathemategwyr

Darllener llyfr Ll. G. Chambers, *Mathemategwyr Cymru* (Cydbwyllgor Addysg Cymru 1994). Am olwg ehangach ar fathemateg a mathemategwyr Cymru, darllener dau lyfr Gareth Ffowc Roberts (mathemategydd prifysgol), *Mae Pawb yn Cyfrif* (Gomer 2012*) a Cyfri'n Cewri* (Prifysgol Cymru 2020). Mae llu o lyfrau, dwys a difyr , ar hynt a helynt rhifau, er enghreifftiau, yn enwedig rhifau cysefin (prime numbers) sef, 3, 5, 7, 11, 13 ... Mae Gareth yn enwog am ei bosau sy'n diddanu llawer o bobl. Beth yw gwerth pos? Porthi'r enaid mathemategol, os oes y fath beth.

Parthed Cristnogaeth heddiw, mae EMJ yn cynnig, 'Tybed a oes 'na berygl ein bod wedi bod yn treulio llawer gormod o amser o'r hanner yn ceisio dysgu'r grefydd pur ar draul y cymhwysol ...' Hwyrach bod lle i bwyso a mesur yr awgrym hwn, ond i mi mae sail y ddwy wedd yn nau orchymyn Iesu (Mathew 22, 41).

### Egni a chariad

Eto yng ngholofn Gwyddoniaeth a Natur yn rhifyn Gorffennaf 29, 2021 ceir ysgrif ddifyr gan Gwilym Wyn, gyda theitl anarferol ac annisgwyl, *Egni a chariad*. Mae'n seilio'i sylwadau ar ddeddf sylfaenol pob proses a gweithgaredd ar ein planed a thu hwnt a deall gwyddoniaeth ohonynt, sef, deddf cadwraeth egni: ni ellir creu na dinistrio egni, dim ond newid ei ffurf. Wrth fwrw golwg dros hanes ffurfiant y ddeddf yn nechreuadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'n briodol cydnabod cyfraniad nodedig Cymro o Abertawe, William Robert Grove (1811–96). Am fywgraffiad difyr a darllenadwy darllener y gyfrol, *William Robert Grove, Victorian Gentleman of Science* (Gwasg Prifysgol Cymru 2017) gan Iwan Rhys Morus. Mae'r awdur yn Athro Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n cyflwyno'r gyfrol 'i fy nhad', heb unrhyw esboniad. Rwy'n credu 'mod i'n iawn yn datgelu mai Alun O. Morris yw'r tad, cyn Athro Mathemateg Bur (!) yn Aberystwyth a chyn-drysorydd y cylchgrawn *CRISTION*.

### Cariad anorchfygol

Yn ei ysgrif mae Gwilym Wyn yn amlinellu rhai o'r ffurfiau sy ar egni, megis, trydanol, cinetig (symud), potensial (lleoliad, cyflwr), cemegol, atomig. Mae'r eglureb grefyddol yn ddeniadol, yn enwedig y cwestiynau a godir, megis, a oes modd dinistrio cariad? Mae'n siŵr bod modd gwneud hyn ar lefel ddynol, ond go brin ar lefel ddwyfol. Onid yw'n greiddiol i'n ffydd fod cariad Duw yn anorchfygol? Onid hyn yw sail datganiad Paul yn 1 Corinthiaid 13? Os am eglureb fy newis i fyddai egni a Duw. Gyda llaw, bu dau fab (afradlon) yn derbyn o gariad y tad.

**Neville Evans**

# Golygyddol

## Er mwyn ein plant, er mwyn Duw!



Mae ein hŵyr bach ni, Lenny Llewelyn, newydd ddathlu ei ben-blwydd cyntaf. O gofio salwch difrifol ei fam, mae'n wyrth iddo ddod i'r byd o gwbwl, sy'n destun rhyfeddod a llawenydd mawr i ni fel teulu. Mae e'n blentyn bach diddig ond bywiog sy'n rhedeg i bobman erbyn hyn, ac yn chwerthin ar ben ei dad-cu druan – fel mae cymaint o bobol eraill yn ei wneud!

Os Duw a'i myn, fe fydd Lenny bach yn 30 oed yn y flwyddyn 2050 – blwyddyn dyngedfennol yn hanes y byd. Dyna'r garreg filltir mae'r llywodraethau fydd yn cwrdd yn COP26 wedi gosod iddynt eu hunain i sicrhau carbon sero net er mwyn cadw'r codiad yn nhymheredd y byd o dan 1.5˚C.

### Gwrando llais yr ifanc

Byddai methu yn drychinebus i ddynoliaeth. Mae pobl ifanc yn fwy ymwybodol na neb o hyn. Roedd proffwydi'r Hen Destament yn ceisio cael pobl i gydnabod eu cyflwr ac edifarhau er mwyn osgoi canlyniadau eu drygioni. A dyna mae proffwydi ifanc heddiw fel Greta Thunberg yn ceisio'i wneud: ein herio i wynebu'r argyfwng hinsawdd a newid ein ffyrdd.

Fel y proffwyd Jeremeia gynt, mae Greta Thunberg yn cael ei gwawdio gan lawer o'r genhedlaeth hŷn – yn enwedig y rheini sydd a chymaint i'w golli petai pethau'n newid. Rhaid mai hen berson luniodd y ddihareb wawdlyd: 'Yr hen a ŵyr, yr ifanc a dybia,' oherwydd pobl ifanc sydd wedi newid y byd! Yn ein gwlad ni, pobl ifanc Cymdeithas yr Iaith wnaeth ennill statws a pharch i'n hiaith trwy aberth ac ymroddiad aruthrol. Pobl ifanc oedd proffwydi'r Hen Destament. Pan gafodd Jeremeia ei alw gan Dduw, atebodd: 'O Arglwydd DDUW, ni wn pa fodd i lefaru, oherwydd bachgen wyf fi.' (Jer.1:6) Dim ond 21 oed oedd Howell Harries pan gafodd ei dröedigaeth ac 20 oed oedd Williams Pantycelyn – dau a wnaeth cymaint i newid wyneb Cristnogaeth yng Nghymru. A dim ond tua 33 oed oedd Iesu Grist ei hun pan gafodd ei groeshoelio.

O ystyried gofid mawr bobl ifanc am yr argyfwng hinsawdd, fe allem ni ddweud: 'Yr ifanc a ŵyr, yr hen a wamala,' oherwydd dyna sy'n digwydd. Mae'r bobl sydd mewn grym yn gwamalu tra bod y byd yn llosgi, fel yn y stori am Nero gynt yn chwarae ei ffidil tra roedd dinas Rhufain ar dân. Mae arwyddion bod hynny'n newid o'r diwedd, ond ddim yn ddigon cyflym nac eang.

### Angen camau radical

Os na fydd camau radical yn cael eu cymryd nawr, fe fydd y tymheredd wedi codi 2˚C erbyn 2050. Os felly, mae'n anodd amgyffred sut le fydd y byd erbyn hynny. Hyd yn oed os nad ydym yn poeni amdanom ni ein hunain, fe ddylem boeni am ddyfodol y plant bach, y plant sydd heb ei geni eto, a'u plant nhw. Nid yw gwneud dim yn opsiwn, yn enwedig i ni Gristnogion. Dywedodd Iesu: 'Yn wir, rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag ichwi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau chwaith.' (Mat. 25:45)

Bydd unrhyw gytundeb gan y gwleidyddion yn COP26 yn cael effaith arnom ni, y cyhoedd. Er enghraifft, bydd newid i yrru ceir trydan yn golygu colled flynyddol o £37bn mewn treth ar betrol a disel. Mae'n bosib y bydd yn rhaid cyflwyno 'treth werdd' newydd i lanw'r bwlch ariannol, fel y gwnaed gydag yswiriant cenedlaethol i dalu am y gwasanaeth iechyd. Os felly, bydd hi'n aberth angenrheidiol.

Mae galw arnom ar lefel bersonol, gymunedol, cenedlaethol a rhyngwladol i wneud ein rhan. Dyna pam fod yr uwchgynhadledd yn Glasgow mor dyngedfennol bwysig. Rhaid i arweinwyr y gwledydd ddod i gytundeb cadarn i dorri ar nwyon tŷ gwydr, trwy anelu at roi'r gorau i losgi glo, nwy ag olew. Mae gennym y dechnoleg i hepgor y carbon dinistriol o'n heconomi, ond a oes gennym yr ewyllys i wneud hynny? Bach iawn o amser sydd ar ôl i wynebu'r argyfwng a gweithredu'r atebion. Neu, erbyn 2050, fe fydd Lenny bach a'i gyfoedion yn damnio ein cenhedlaeth ni am golli'r cyfle hwn.

**Alun Lenny**

## Ar y dydd hwn: Hydref – *parhad*

*24 Hydref*
Bu farw Sarah (Sally) Charles, 1753–1814, Cristion a gwraig fusnes a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent eglwys Llanycil, y Bala.



*24 Hydref*
Bu farw George Cadbury 1839–1922, cynhyrchydd siocled a diwygiwr cymdeithasol yn ei gartref, Manor House, Birmingham,

*26 Hydref*
Bu farw Philip Doddridge 1702–51, gweinidog Annibynnol, awdur ac emynydd ac fe'i claddwyd ym mynwent y Ffactri Brydeinig, Lisbon.

1944 bu farw yr Archesgob William Temple.

*27 Hydref*
1670 bu farw Vavasor Powell, 1617–70, pregethwr, diwinydd Piwritanaidd ac Awdur, a chladdwyd ei weddillion yng nghladdfa Bunhill Fields, Llundain.

Bu farw Michael Jones, 1787–1853, gweinidog (A) ac athro cyntaf Coleg Annibynnol y Bala. chladdwyd ef yn Rhosyfedwen, mynwent yr Hen Gapel.

Ganed Lewis Edwards, 1809–87, sefydlydd a phrifathro cyntaf Coleg y Bala (MC), athro a diwinydd

ym Mhwllcenawon, Pen-llwyn, Ceredigion, rhyw bum milltir o Aberystwyth.

Bu farw Dafydd Morgan, 1814–83, gweinidog (MC) a diwygiwr a chladdwyd ei weddillion yn Ysbyty Ystwyth.

*30 Hydref*
Ganed Caradog Roberts, 1878–1935, cerddor, cyfansoddwr ac organydd yn Mount View, Rhosllannerchrugog, sir Ddinbych.

*31 Hydref*
1517 yr hoeliodd Martin Luther ei 95 pwnc ar ddrws yr eglwys yn Wittenberg.

## Y Parchg Gerwyn Jones

Tristwch o'r mwyaf i ni yn y Tabernacl Porthcawl yw cofnodi marwolaeth y Parchg Gerwyn Jones dydd Mercher 13eg o Hydref. Daeth yn aelod yn ystod cyfnod gweinidogaeth y Parchg Rosan Saunders. Wedi iddi ymddeol bu yn gefn mawr i'r eglwys, yn cymryd gwasanaethau fel bo angen, arweiniodd ein Dosbarth Beiblaidd, cefnogodd ein Cwrdd Swyddogion ac o ddechrau'r cyfnod clo paratôdd fyfyrdod wythnosol ar gyfer pob Sul yn ddi-ffael. Gwerthfawrogwyd y myfyrdodau hyn gan yr aelodau a ffrindiau'r eglwys.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i wraig Cathy, ei ferch Rhiannon a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth am un oedd mor annwyl ganddynt.

Cynhelir angladd y Parchg Gerwyn Jones ar brynhawn dydd Mawrth 2 Tachwedd am 1.15 yn Amlosgfa Llangrallo.

Er ein bod yn awr yn cael y fraint o fod dan weinidogaeth y Parchg Dylan Rhys Parry byddwn yn gweld eisiau ei bresenoldeb a'i gefnogaeth yn ein gwasanaethau.

**Tom Price, Ysgrifennydd**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

# HINSAWDD AELWYD 2 – CYNAEAFAU GWAHANOL

*Dyma ail ran erthygl Morlais Dyfnallt Owen sy'n trafod Llyfr Ruth.*

Ym mhenderfyniad ddi-ildio Ruth gwelwn natur gwir ffydd, rhywbeth sy'n dystiolaeth ryfeddol o ras Duw yn ein bywyd. Onid yr agweddau hyn ar fywyd y dylem ni eu hyrwyddo, eu hymgeleddu a'u gwarchod yn ofalus iawn. Onid y rhain yw pileri bywyd, y rhain yw'r cynaeafau gwahanol ond hanfodol. Edrychwn arnynt yn fanylach.

## Cyfeiriad

'I ble yr ei di, fe af finnau.' Beth sydd yma ond CYFEIRIAD. Roedd gan Ruth ddewis – mynd yn ôl i wlad Moab gyda'i thraddodiadau a'i diwylliant cwbl wahanol, neu aros a glynu wrth yr ymateb i bethau gorau bywyd a'r ymrafael ynddynt, glynu wrth yr hyn sydd dda. Pan ry'n ni'n dewis, dewis cyfeiriad yr ydym. 'Hell is paved with good intentions.' Onid y cyfeiriad yw sail a fframwaith bywyd. Ry'm i gyd, bob un ohonom yn wahanol, ddim yn gweld i'r un graddau, nac yn clywed yr un mor dda. Mae'r hyn sy'n ddirgelwch i'r naill ddyn, yn gwbl eglur i'r llall. Serch hyn i gyd, mae'r ffactorau dynol pwysicaf, beth bynnag yw'n hamgylchiadau, yn gyffredin i bob un ohonom (the common factors), ac mae eu hystyr cyffredinol yn ddilys ar gyfer pob cyfnod ac yn gymwys i bob dyn.



*Ruth yng nghae Boas gan Julius Schnorr von Carolsfeld*

Law yn llaw â chyfeiriad mae ffordd – y ffordd sy'n gwneud y cyfeiriad yn abl i fodoli. Pwysleisir hyn gan ein beirdd a'n hemynwyr:

Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,
tydi yw ngrym
(George Rees 541 *Caneuon Ffydd*)

O! Iesu, y ffordd ddigyfnewid
A gobaith pererin di-hedd
(W. Rhys Nicholas 542 *Caneuon Ffydd*)

## Cyfarwyddyd

Uwchlaw pob peth arall, yn wirioneddol, mae cyfeiriad yn golygu CYFARWYDDYD. Onid yw hwn yn un o'r cynaeafau mwyaf, cael mwynhau ei ffrwythau ar hyd ein taith.

'Ymha le bynnag y byddi di'n aros, fe arhosaf finnau.' Dyma'r CARTREF:

Home is where
the heart is.

Cartref – adail cariad
Ar y ddaear yw,
Pabell a'i phortread
Ym meddyliau Duw.
(Parchg Ben Davies Panteg)

Dywedodd merch ifanc wrth ei darpar ŵr wrth chwilio'r farchnad dai: 'Cofia John, nid tŷ sydd eisiau amom ond cartref.' Adeiladir tŷ yn ôl cynllun y pensaer, ac fe gymer amser i'w gwblhau. Onid oes angen cynllun arbennig i adeiladu cartref a chynllunio gofalus fydd angen ar ei gyfer. Gwelsom lawer tro tu allan i adeilad: Home for Sale. Na! Nis gallwn brynu cartref mwy na'i werthu. Hawdd ei ddistrywio, trist iawn yw gweld aelwyd yn chwalu drwy ddiffyg dealltwriaeth, diffyg cydymdeimlad, diffyg cariad.Yr hinsawdd yw un o'r ffactorau sy'n arwain at gartref da. Y naws, yr awyrgylch, yr ethos. Collodd nifer helaeth o gartrefi'n gwlad y grefft o gyfathrebu, o wrando ar ofidiau'n plant a'n hieuenctid. Ni ŵyr neb ohonom y nifer ohonynt sy'n dioddef o afiechyd meddwl. Ni all unrhyw beth gymryd lle cartref da, un o'r cynaeafau mwyaf.

## Cenedl

'Dy bobl di fydd fy mhobl innau' – CENEDL. Cenedl gymysg o ran iaith ydym ni bellach, a chymysg o ran diwylliant. Mae angen i ni ddal gafael yn dynn yn yr etifeddiaeth gyfoethog sy'n rhan gynhenid o'n bywyd fel Cymry. Byw ydym mewn byd gwleidyddol a beth bynnag yw'r gwahaniaethau rhwng y partïon gwleidyddol, fe ddylai eu hamcanion a'u hewyllys fod yr un lle mae Cymru yn y cwestiwn. Pwysleisir ers amser bwysigrwydd cadwraeth gyda'r ffocws yn bennaf ar fyd natur. Onid oes angen yr un pwyslais ar gadwraeth Cenedl?

'Mae gen i freuddwyd y bydd ein Cymru ni a'i phobl yn rhydd a'i hiaith mewn urddas a bri, yn llefaru wrth y cenhedloedd ac yn eu cymell i fentro gyda ni i ddilyn Iesu ar ffordd tangnefedd.' (Parchg Ddr Pennar Davies, Prifathro Coleg yr Annibynwyr yn Abertawe, o gadair yr Undeb 1973.) Hyn yw'n treftadaeth, ein hetifeddiaeth. Ie! Cynhaeaf Cymreictod.

Cawsom wlad i'w chadw,
darn o dir yn dyst
ein bod wedi mynnu byw.

Cawsom genedl o genhedlaeth
i genhedlaeth ac anadlu
ein hanes ein hunain.

A chawsom iaith, er na cheisiem hi,
oherwydd ei hias oedd yn y pridd
eisoes
a'i grym anniddig ar y mynyddoedd.

(rhan o'r gerdd 'Etifeddiaeth',
Gerallt Lloyd Owen)

**Morlais Dyfnallt Owen**

*(Bydd trydydd rhan yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst)

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*